Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad Anffurfiol – crynodeb o ymatebion

# Amodau Arfaethedig Trwyddedau Cregyn Moch 2024-25

## Amodau arfaethedig trwyddedau cregyn mor ar gyfer cyfnod y drwydded a chyfnod Cregyn Moch Mawrth 2024 i 28 Chwefror 2025

28 Tachwedd 2023

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in Welsh.

OGL © Crown Copyright Digital ISBN 978-1-80391-458-9

# Cynnwys

1. Cefndir ........ 2
2. Cyfnod Ymgynghori a Dosbarthu ........ 2
3. Ymatebion ........ 2
4. Ymgynghoriad ........ 2
5. Crynodeb ........ 3
6. Camau Nesaf ........ 3

## 1. Cefndir

Gofynnodd Llywodraeth Cymru am farn ar gynigion i newid agweddau ar bysgodfa cregyn moch Cymru drwy ymgynghoriad pythefnos o hyd.

Mae'r newidiadau arfaethedig ar gyfer cyfnod trwyddedau cregyn moch 2024-2025 yn dechrau ar 1 Mawrth 2024 ac maent yn cynnwys:

• Ffi y drwydded i gynyddu gyda chostau chwyddiant
• Y Terfyn Dalfa Blynyddol (ACL) i aros yr un fath â 2023-24
• Dim newid i'r Terfyn Dalfa Misol cychwynnol (MCL)

## 2. Cyfnod Ymgynghori a Dosbarthu

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 13-27 Tachwedd yn gynhwysol.

Cafodd yr ymgynghoriad ei gyhoeddi ar LLYW. CYMRU ac anfonwyd llythyr at holl bysgotwyr cofrestredig Cymru yn ogystal â physgotwyr eraill y gwyddys eu bod yn pysgota am gregyn moch yn ym mharth Cymru a phrynwyr/proseswyr cregyn moch.

Roedd ymatebwyr yn gallu ymateb drwy e-bost neu drwy ddarparu ymateb ysgrifenedig.

## 3. Ymatebion

Hoffai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gyflwyno eu barn ac ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried cyn cyflwyno amodau'r drwydded.

Yn ystod y cyfnod ymgynghori, derbyniwyd ymatebion gan 2 unigolyn sydd â diddordeb ym mhysgodfa cregyn moch Cymru.

## 4. Ymgynghoriad

Roedd yr ymgynghoriad yn holi barn ar y cynnydd arfaethedig o ffi'r drwydded i £304, y Terfyn Dalfa Blynyddol (ACL) i aros yr un fath â 2023-24 ar 4,768 tunnell; a dim newid i'r

Terfyn Dalfa Misol cychwynnol (MCL) o 50 tunnell. Bydd yr amodau hyn yn berthnasol i drwyddedau a fydd yn ofynnol gan unrhyw un sy'n dymuno pysgota am gregyn moch sy'n defnyddio potiau yn fasnachol ym mharth Cymru ar gyfer y cyfnod trwyddedu rhwng 1 Mawrth 2024 a 28 Chwefror 2025.

## 5. Crynodeb

Derbyniwyd dau sylw yn ystod y cyfnod ymgynghori anffurfiol. Cytunodd un sylw fod y cynigion yn ymddangos yn rhesymol. Gofynnodd ymatebydd pellach pam nad oedd y gost wedi'i raddio.

## 6. Camau Nesaf

Mae swyddogion polisi Llywodraeth Cymru wedi ystyried yr holl ymatebion a sylwadau a dderbyniwyd. Bydd swyddogion nawr yn paratoi briff i'r Gweinidog ar y canlyniadau.

Mae swyddogion yn disgwyl agor y bysgodfa cregyn moch a ganiateir ar 1 Mawrth 2024. Rhagwelir y bydd cyfnod ymgeisio am drwydded yn agor ym mis Rhagfyr a bydd swyddogion yn darparu gwybodaeth i bob pysgotwr bryd hynny.

Bydd unrhyw amodau ychwanegol i'r drwydded sy'n ofynnol i gydymffurfio â Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 a Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau Morol Alltraeth 2017 yn cael eu cadarnhau cyn i gyfnod cyntaf y drwydded ddechrau ar 1 Mawrth 2024.